# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie (Is-Gadeirydd), Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Alice Jones, Pat Jones, Bob Murray, Dewi Owens, Merfyn Parry, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, David Simmons, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Huw Williams a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Arweinydd Tîm - Lleoedd (SC), Rheolwr Datblygu (PM), Prif Swyddog Cynllunio (IW), Swyddog Cynllunio (DR), Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd (MP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Cyn dechrau'r cyfarfod, dywedwyd nad oedd y Cadeirydd, y Cynghorydd Raymond Bartley, yn gallu mynychu'r cyfarfod ac yn ei absenoldeb, y byddai'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Bill Cowie (a elwir yn 'Cadeirydd' o hyn allan), yn cadeirio cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Stuart Davies, Alan James, Barry Mellor, Bill Tasker a/ac Cheryl Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd Gareth Sandilands – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 8 ar y rhaglen

Cynghorwyr Joan Butterfield, David Simmons, Julian Thompson-Hill a Meirick Lloyd Davies – Cysylltiad Personol - Eitem Rhif 9 ar y Rhaglen 9

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2016.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir.*

**CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5 – 10 AR Y RHAGLEN)**

Cyflwynwyd ceisiadau a oedd yn gofyn am benderfyniad y pwyllgor ynghyd â dogfennau cysylltiol. Cyfeiriwyd hefyd at yr wybodaeth a gyflwynwyd yn hwyr (taflenni glas) a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen ac a oedd yn ymwneud â'r ceisiadau penodol. Er mwyn caniatáu ceisiadau aelodau'r cyhoedd i gyflwyno sylwadau, cytunwyd y dylid amrywio trefn rhaglen y ceisiadau fel y bo'n briodol.

**5 RHIF Y CAIS 03/2016/0300/PF - TIR ODDI AR FFORDD Y FICERDY, LLANGOLLEN**

Cyflwynwyd cais i godi 95 annedd, ynghyd â ffyrdd cysylltiedig, mannau agored a gwaith cysylltiedig ar dir oddi ar Ffordd y Ficerdy, Llangollen.

**Siaradwyr Cyhoeddus -**

Mr. Lawrence **(Yn erbyn)** - cododd bryderon ynghylch y cais. Gwrthwynebodd y ffaith nad yw'r cais presennol yn debyg o gwbl i'r cais a roddwyd yn 1997, pan nad oedd y cae uchaf wedi cael ei ystyried ar gyfer datblygiad. Mynegodd yr angen am fwy o dai fforddiadwy. Hefyd mynegwyd pryderon ynghylch y pwysau ar ysgolion a faint o le agored y bydd yna o fewn y datblygiad arfaethedig.

Mr. Gilbert **(O blaid)** – rhoddodd gefndir a gwybodaeth am y datblygiad. Roedd y safle cyfan wedi ei ddyrannu ar gyfer datblygu o fewn y CDLl. Cafwyd trafodaethau gyda swyddogion cynllunio ac roedd datblygwyr yn cydymffurfio â safonau cynllunio Sir Ddinbych. Byddai ffordd newydd arfaethedig mewn perthynas â'r cais, a fyddai'n gwella'r problemau ac yn lleddfu pryderon trigolion lleol.

**Dadl Gyffredinol -** Cyfeiriodd y Swyddog Cynllunio at y safle a ddyrannwyd yn cyfuno 2 lain o dir - un yn cynnwys caniatâd cynllunio sy'n bodoli ar gyfer 50 o anheddau a'r ail wedi ei glustnodi yn y CDLl ar gyfer datblygiad o 45 o anheddau.

Yn ystod trafodaeth ddwys, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y caniatâd cynllunio blaenorol yn dal yn fyw oherwydd y ffaith bod y ffordd fynediad i'r datblygiad wedi cael ei hadeiladu o fewn 5 mlynedd o ddyddiad rhoi'r caniatâd cynllunio.

- Man Agored - Yn dilyn trafodaethau, roedd man agored cyhoeddus mwy, a mwy canolog, wedi cael ei gynnig. Cynigiwyd bod y cyfrifoldebau rheoli yn gorwedd gyda'r datblygwr / tirfeddiannwr a byddai'n cael ei sicrhau drwy gytundeb cyfreithiol. Cynigiwyd £1818.28 yn ychwanegol fel cyfraniad at ddarpariaeth oddi ar y safle.
- Roedd strategaeth ddraenio wedi'i chyflwyno yn nodi bod ffosydd cerrig yn ddewis realistig ar y safle. Ystyriodd y Swyddogion bod digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno i ddangos y gellid rheoli dŵr budr a dŵr wyneb yn dderbyniol. Nid oedd union faint a lleoliad y ffosydd cerrig arfaethedig wedi cael ei sefydlu, fodd bynnag, ystyriwyd y gallai'r manylion hyn gael eu rheoli'n rhesymol drwy amod.
- Roedd pryderon amrywiol wedi'u codi mewn perthynas ag effaith y datblygiad mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd lleol a diogelwch y ffyrdd.
  Roedd asesiadau wedi'u cynnal gan yr adran Priffyrdd, ac yn seiliedig ar y cyflwyniad, ynghyd â chasglu gwybodaeth ychwanegol, ystyriodd y Swyddogion Priffyrdd y byddai'n angenrheidiol bod y ffordd fynediad newydd yn cael ei chwblhau cyn adeiladu unrhyw anheddau. Byddai hyn yn caniatáu i draffig adeiladu sy'n ymwneud â'r tai i ddefnyddio hon fel llwybr i mewn i'r safle. Gan ystyried ymatebion yr ymgynghorai technegol, manylion y trefniadau mynediad a pharcio arfaethedig, dyluniad cyffyrdd, lleoliad y safle a graddfa'r datblygiad, ni ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.
- Y cynnig oedd codi 95 o anheddau ar 3.7 hectar.
  Byddai hyn yn cynrychioli dwysedd o 26 o anheddau fesul hectar, a oedd yn is na'r ffigwr a fyddai'n codi o gymhwyso'r ffigur Polisi RD1, o 35 annedd fesul hectar.
- Gwnaethpwyd cytundeb gyda'r datblygwyr mewn perthynas â chyfraniad addysg a gynigiwyd i'w sicrhau drwy gytundeb cyfreithiol.
- Cafodd ei gadarnhau gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod y cais ar gyfer 95 o anheddau, a oedd yn cynnwys cais blaenorol am 50 o anheddau. Roedd y caniatâd cynllunio a oedd yn bodoli, ar gyfer gosodiad a dyluniad gwahanol. Roedd y cais presennol ar gyfer y safle cyfan o 95 o anheddau.
- Fe wnaeth nifer o Aelodau gwestiynu dyraniad y tai fforddiadwy. Eglurodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod y caniatâd cynllunio ar gyfer 50 o dai yn bodoli cyn y gofyniad tai fforddiadwy, ac felly derbyniodd, drwy gyd-drafod, ar gyfer y 10% o 45 annedd yn dai fforddiadwy. Byddai hyn yn cyfateb i 4 uned tai fforddiadwy gyda thaliad ychwanegol o £47,074.50 wedi'i gynnig tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle. Ystyriodd y Swyddogion fod yn rhaid rhoi pwysau sylweddol i ganiatâd sy'n bodoli.
- Mynegodd yr aelodau eu hanghytundeb â'r cyfrifiad a mynnwyd y dylai 10% o dai fforddiadwy gael ei ddyrannu i'r safle cyfan o 95 o anheddau. Byddai hyn yn cyfateb i 9 uned tai fforddiadwy gyda thaliad ychwanegol o £47,074.50 wedi'i gynnig tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle.

Mynegodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Rhys Hughes, ei anghytundeb gyda'r datblygiad, yn enwedig y dyraniad tai fforddiadwy. Gofynnodd y Cynghorydd Hughes hefyd bod parcio ychwanegol yn cael ei ddarparu yn agos at Adeiladau'r Castell, fel y nodir ar y cynllun. Mae'r datblygwr wedi cytuno i un lle parcio i bob

aelwyd, ond gofynnodd y Cynghorydd Hughes bod llecynnau ychwanegol yn cael eu darparu.

**Cynnig -** Cynigiodd y Cynghorydd Merfyn Parry ddiwygiad, a eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, i ganiatáu'r cais gyda'r Cytundeb Adran 106, sy'n gyda 10% o dai fforddiadwy yn gymwys ar gyfer y safle cyfan (95 o anheddau).

Byddai union eiriad Adran 106 yn fater i'r swyddog cyfreithiol gwblhau. Mewn achos o fethiant i gwblhau cytundeb Adran 106 o fewn 12 mis i ddyddiad penderfyniad y pwyllgor cynllunio, byddai'r cais yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor benderfynu arno yn erbyn y polisïau a'r canllawiau perthnasol ar y pryd.

**Cynnig -** Cynigiodd y Cynghorydd Rhys Hughes y dylid gwrthod y cais, a eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts, ar y sail nad oedd digon o dai fforddiadwy, materion priffyrdd ac effaith ar yr AHNE.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y byddai'r bleidlais ynghylch y diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd Merfyn Parry yn digwydd yn y lle cyntaf.

PLEIDLAIS:
O blaid - 22
Ymatal - 0
Gwrthod - 0

Derbyniwyd y diwygiad yn unfrydol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd y byddai'r bleidlais yn digwydd ynghylch a ddylid rhoi caniatâd cynllunio, yn cynnwys y Cytundeb Adran 106, ar gyfer 10% o 95 o anheddau i'w hystyried ar gyfer tai fforddiadwy, neu i wrthod y cais.

PLEIDLAIS:
O blaid - 17
Ymatal - 0
Gwrthod - 6

**PENDERFYNWYD** bod y caniatâd cynllunio'n cael ei **ROI** yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar gwblhau Ymrwymiad Adran 106 i sicrhau cyfraniadau tai fforddiadwy yn seiliedig ar 10% o 95 o anheddau a chyfraniadau addysg a mannau agored yn unol ag adroddiad y Swyddog.

**Ar y pwynt hwn (11.40 am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00p.m.**

**6 RHIF Y CAIS 43/2016/0432/PF – YSTÂD DDIWYDIANNOL PARC DYFFRYN, FFORDD PENDYFFRYN, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i ddymchwel adeiladau presennol a chodi siop fwyd (Dosbarth A1), maes parcio a meysydd gwasanaeth, mynediad i gerbydau a cherddwyr a gwaith cysylltiedig ar Ystâd Ddiwydiannol Parc Dyffryn, Ffordd Pendyffryn, Prestatyn.

**Siaradwr Cyhoeddus-**

Mr Stuart Jarine **(O blaid)** - siaradodd ar ran yr ymgeisydd yn rhoi gwybod bod y safle wedi bod yn wag ers dros 10 mlynedd, a byddai'r datblygiad yn welliant i'r dref. Byddai'r archfarchnad yn darparu hyd at 40 o swyddi i bobl leol. Roedd Lidl yn awyddus i fuddsoddi yn Sir Ddinbych ac wedi cynllunio y byddai'r siop yn agor yn 2018.

**Dadl Gyffredinol -** amlinellodd y Rheolwr Datblygu pa mor agos oedd y safle at Stryd Fawr Prestatyn. Esboniodd fod yr adroddiad yn nodi'r holl ystyriaethau cynllunio perthnasol, nid oedd unrhyw wrthwynebiad wedi dod i law a chafwyd cefnogaeth leol.

Cefnogodd y Cynghorwyr Bob Murray, Gareth Sandilands a Julian Thompson-Hill y cais, ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch faint o draffig y bydd yno. Cadarnhawyd gan yr Uwch Beiriannydd, bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i oblygiadau priffyrdd y datblygiad ac wrth gydnabod amheuon lleol, ystyriwyd bod y cynigion yn dderbyniol o ran diogelwch priffyrdd a darpariaeth parcio, ac yn cydymffurfio â'r polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol.

Roedd y Datganiad Ieithyddol Cymunedol cryno a gyflwynwyd gyda'r cais yn dod i'r casgliad na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol ar anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg.

**Cynnig -** Cynigiodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fod amod ychwanegol yn cael ei gynnwys yn delio â Strategaeth Cyflogaeth Leol, i gynnwys effeithiau ar yr iaith Gymraeg, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Rhys Hughes.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac i gynnwys yr amod ychwanegol ar gyfer effaith ar yr iaith Gymraeg, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Anton Sampson.

PLEIDLAIS:
O blaid - 20
Ymatal - 0
Gwrthod - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad, ac i gynnwys yr amod ychwanegol ar gyfer effeithiau ar yr iaith Gymraeg.*

7 **RHIF Y CAIS 45/2016/0740/PF - THEATR Y PAFILIWN A HEULFAN A THIR CYFAGOS/MEYSYDD PARCIO CEIR A CHOETS, EAST PARADE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i ailddatblygu 4.25 hectar o dir gan gyfuno’r elfennau (Llawn/Amlinellol) hybrid canlynol:- Dymchwel yr hen “Heulfan” ac ail-wneud tu allan Theatr y Pafiliwn sydd ynghlwm â hi, sy'n cynnwys tros-gladin. (Llawn)- Adeiladu Canolfan Arddangos/ Ddigwyddiadau Dosbarth D2 4,000m2 fel estyniad i Theatr y Pafiliwn (Amlinellol) - Adeiladu gwesty Dosbarth C1 73 ystafell wely 2,825m2 ar wahân. (Llawn) - Codi 2 Fwyty i Deuluoedd Dosbarth A3 (Amlinellol) - Cadw ac ailddefnyddio ciosg manwerthu presennol ac adeilad sied trên tir at ddefnydd manwerthu/hamdden/cymunedol (Llawn) - Maes parcio newydd wedi'i ailgynllunio i geir/coetsis (Llawn) - Gwelliannau a newidiadau i fynedfa cerbydau ac ardaloedd troi presennol. (Llawn) – Manylion tirlunio caled a meddal (Llawn/Amlinellol) yn Theatr y Pafiliwn, yr Heulfan a thir/meysydd parcio ceir a choetsis cyfagos, East Parade, Y Rhyl.

**Siaradwr Cyhoeddus-**

Mr R Gee **(O blaid)** - siaradodd ar ran yr ymgeisydd, Neptune Developments Ltd. Roedd y datblygiad i fod yn gam allweddol cyntaf o ddatblygiad Glannau’r Rhyl a fwriadwyd i ailddyfeisio ac adfywio glan y môr y Rhyl. Byddai'r datblygiad yn creu nifer sylweddol o swyddi ac yn gwella twristiaeth.

**Dadl Gyffredinol -** Dywedodd y Cynghorydd David Simmons (aelod ward) y byddai’r datblygiad hwn yn gyfle gwych i'r Rhyl a Sir Ddinbych.

Hysbysodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans, y Pwyllgor, er nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, ei fod eisiau esbonio faint o waith oedd wedi digwydd rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Llywodraeth Cymru, Neptune Developments Ltd, a buddsoddwyr preifat. Roedd gan y Rhyl fater adfywio ar hyn o bryd ond roedd yn gobeithio y byddai hyn yn sbarduno newid ar gyfer y Rhyl.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd David Simmons argymhelliad y swyddogion i gymeradwyo’r cais, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Joan Butterfield.

PLEIDLAIS:
O blaid - 18
Ymatal - 0
Gwrthod - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO’R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*

8 **RHIF Y CAIS 03/2016/0845/LB – BWTHYN PEN Y BEDW, BIRCH HILL, LLANGOLLEN**

Cyflwynwyd Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer disodli strwythur to presennol ar heulfan yn y cefn i do gwydr; adfer strwythur y to pyramid sgwâr yn y cefn, ffurfio gorchudd to clad sinc lliw llechen naturiol uwchben storfa i’r cefn a newid gwteri a pheipiau landeri i haearn bwrw ym Mwthyn Pen y Bedw, Birch Hill, Llangollen.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Rhys Hughes argymhelliad y swyddogion i gymeradwyo’r cais Adeilad Rhestredig, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Brian Blakeley**.**

PLEIDLAIS:
O blaid - 18
Ymatal - 0
Yn erbyn – 0

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO’R** cais Adeilad Rhestredig, yn unol ag argymhelliad y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*

**9 RHIF Y CAIS 23/2016/0875/PF – COEDWIG CLOCAENOG, SARON, DINBYCH**

Cyflwynwyd cais i godi is-orsaf drydan 132kV a gwaith cysylltiedig (cais diwygiedig) yng Nghoedwig Clocaenog, Saron, Dinbych.

Dywedodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Joe Welch, fod cais wedi ei gyflwyno ar gyfer is-orsaf drydan a gwaith cysylltiedig yn 2014 a oedd wedi cael ei wrthod, ond a roddwyd ar apêl ar 1 Mehefin 2016. Roedd yn ymddangos bod ardal y lle caeedig yn llai na'r cais cynllunio gwreiddiol, ond bu cynnydd yn yr uchder penodedig.

Eglurodd y Swyddog Cynllunio fod y cais o gymeriad gwahanol, a byddai effaith o'r gwreiddiol ac effaith sŵn yn cael eu darparu gydag amodau cynllunio.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Rhys Hughes argymhelliad y swyddog i gymeradwyo’r cais, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Dewi Owens.

PLEIDLAIS:
O blaid - 12
Ymatal - 0
Yn erbyn - 7

***PENDERFYNWYD** y dylid **CYMERADWYO’R** cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*

**10 RHIF Y CAIS 47/2016/0997/PF – GROESFFORDD TREMEIRCHION**

Cyflwynwyd cais i gynyddu uchder y wal derfyn flaen yn y Groesffordd, Tremeirchion, Llanelwy.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhelliad y swyddog i gymeradwyo’r cais cynllunio, ac fe’i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Williams.

PLEIDLAIS:
O blaid - 18
Ymatal - 0
Gwrthod - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion a nodwyd yn yr adroddiad.*

**11 CADARNHAU DAU ORCHYMYN CADW COED CYNGOR SIR DDINBYCH MEWN PERTHYNAS Â THIR YN ARDAL GALLT MELYD**

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu adroddiad i Aelodau'n cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 03/2016 Cyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thir yn Ffordd Hendre, Gallt Melyd a Gorchymyn Cadw Coed Rhif 04/2016 Cyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thir ym Maes Meurig, Gallt Melyd.

Roedd y Cyngor wedi gwneud defnydd o'r pwerau a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 201 (Gorchmynion Cadw Coed dros dro) ar 9 Awst 2016. Roedd angen penderfyniad ynghylch bwriad y Cyngor i gadarnhau'r Gorchmynion Cadw Coed, cyn i'r Gorchmynion Cadw Coed dros dro priodol ddod i ben ar ddechrau mis Chwefror 2017. Roedd un o'r Gorchmynion (Maes Meurig) â gwrthwynebiad, fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Roedd Gorchmynion Cadw Coed yn gyffredinol yn anelu at gadw coed unigol neu grŵp o goed sy'n cyfrannu at nodweddion o'r dirwedd, yn darparu amwynder ar gyfer mwynhad y cyhoedd, yn darparu cynefin i fywyd gwyllt lleol, neu oherwydd eu prydferthwch cynhenid. Mewn termau cyfreithiol, maent yn ei gwneud yn drosedd difrigo, tocio, diwreiddio, difrodi neu ddifetha coeden yn fwriadol, neu dorri coeden i lawr, heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

**Cynnig -** Cynigiodd y Cynghorydd Peter Evans i dderbyn argymhelliad y swyddog i gadarnhau Gorchmynion Cadw Coed, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Gareth Sandilands.

PLEIDLAIS:
O blaid - 17
Ymatal - 0
Yn erbyn - 1

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'n cadarnhau Gorchymyn Cadw Coed Rhif 03/2016 Cyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thir yn Ffordd Hendre, Gallt Melyd a Gorchymyn Cadw Coed Rhif 04/2016 Cyngor Sir Ddinbych sy'n ymwneud â thir ym Maes Meurig, Gallt Melyd, yn unol ag argymhelliad y swyddog fel a nodwyd yn yr adroddiad.*

Yn y fan hon, fe wnaeth Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ddymuno adferiad llwyr i'r Cynghorydd Raymond Bartley (Cadeirydd) a diolchodd i'r Cynghorydd Bill Cowie am gadeirio'r cyfarfod. Fe wnaeth hefyd ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd i bawb.

Fe wnaeth y Cynghorydd Bill Cowie ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 pm.**